WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd Hugh Evans – Arweinydd
Judith Greenhalgh – Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

**Cyfeirnod:** 958A2018-19

**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Tachwedd 2018

Annwyl Gynghorydd Evans a Judith

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ddinbych 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;

- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar 15 Mehefin 2018, bythefnos yn gynharach na'r terfyn amser statudol. Er gwaethaf y terfyn amser byrrach, paratowyd y datganiadau ariannol drafft i safon dda ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr ac amserol. Cyflwynwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2018.

Ar 28 Medi 2018, rhoddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2018.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Medi 2018 a daeth i'r casgliad bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus.

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2018-19 na systemau ariannol allweddol

Nid yw'r gwaith a wnaf yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi unrhyw faterion sylweddol hyd yma mewn perthynas â'r cyfrifon na systemau ariannol allweddol y Cyngor. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am unrhyw faterion allweddol yn fy adroddiad Ardystio Grantiau blynyddol unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

## Mae gan y Cyngor hanes blaenorol o reoli ei gyllid ond bydd yr her ariannol sylweddol yn parhau yn y tymor canolig

Cyni yw'r her fwyaf sylweddol sy'n wynebu cyrff llywodraeth leol yng Nghymru o hyd ac mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canolig. Fel rhan o'r setliad ariannu llywodraeth leol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, bydd cyllid y Cyngor yn gostwng 0.5%.

Yn 2017-18, nododd y Cyngor danwariant o £1.1 miliwn, a gyflawnwyd yn rhannol drwy gyfraniad £2.1 miliwn a gyllidebwyd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a ddefnyddiwyd i ariannu pwysau ar wasanaethau. Ar 31 Mawrth 2018, cynhaliodd y Cyngor ei Gronfa Gyffredinol wrth gefn ar £7.5 miliwn a chadwodd £29.4 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (ac eithrio'r Cyfrif Refeniw Tai).

Er mwyn pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2018-19, bu'n rhaid i'r Cyngor nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion o £4.6 miliwn. Yn ystod mis Hydref 2018, nododd y Cyngor bod y rhan fwyaf o'r arbedion effeithlonrwydd a'r arbedion gofynnol wedi'u cyflawni ac roeddent ar y trywydd iawn i gyflawni'r £4.6 miliwn. Er hynny, roedd y Cyngor yn rhagweld gorwariant o £1.2 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol yn bennaf oherwydd pwysau costau parhaus ym maes Priffyrdd a'r Amgylchedd a'r Gwasanaeth Plant ac Addysg. Gwnaeth y Prif Swyddog Cyllid gynnwys sylwadau yn Adroddiad Cyllid Hydref 2018 i'r Cabinet, gan bwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a thu hwnt, yn enwedig yn sgil y pwysau ariannol parhaus.

Mae rhagolwg ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn heriol iawn ac roedd y blaengynllun ariannol diweddaraf yn rhagweld diffyg cyllid refeniw o £6.4 miliwn yn 2019-20. Mewn ymateb i'r pwysau ariannol, sefydlodd y Cyngor ei 'Fwrdd Ail-lunio'r Cyngor' ym mis Ionawr 2018, gyda chyfrifoldeb am ddatblygu'r fersiwn nesaf o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, gan helpu i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol, ysgogi cyfeiriad strategol ehangach y Cyngor ond sicrhau hefyd fod yna broses effeithiol ar waith er mwyn cyflawni cyllideb fantoledig yn flynyddol.

Mae'r sefyllfa ariannol heriol yn peri risg sylweddol i'r Cyngor. Mae rheoli'r sefyllfa ariannol yn 2018-19 a phennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2019-20 ymhlith blaenoriaethau allweddol ynghyd â diweddaru ei strategaeth ariannol tymor canolig. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir



**Anthony Veale**
**Cyfarwyddwr Ymgysylltu**
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**